# Swydd Ddisgrifiad



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cymhorthydd Hamdden Arfon | | | | |
| **Rhif Arfarnu** | 3519 | Dyddiad y Swydd Ddisgrifiad | 25/02/2019 | Graddfa Cyflog | 19GS2 (3 - 4) |
| **Rhif Swydd** ar y sefydliad swyddi | 2HRA16 | Rhif Swydd y Rheolwr Llinell | 2HRA02 | | |
| **Atebol i Swydd** Teitl Swydd y Rheolwr | Rheolwr ar Ddyletswydd Arfon | | | | |
| **Company** | Byw'n Iach | | | | |
| | - | | | | |
| **Lleoliad** a'r Côd Post os yn berthnasol | Byw'n Iach Arfon, Caernarfon | | | | |

## Pwrpas y Swydd

Hybu a chefnogi ffordd iach o fyw i'r sawl sy'n defnyddio'r Canolfannau Hamdden a'r gymuned ehangach.

Sicrhau bod y sawl sy'n ymweld â'r Ganolfan yn gallu ei ddefnyddio'n ddiogel, tra'n cynnig gofal cwsmer o safon uchel

Sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydan ni yn ei wneud.

## Cyfrifoldeb am Adnoddau

e.e. staff, cyllid, offer

- Paratoi offer a chyfleusterau trwy osod offer i fyny a'i dynnu i lawr fel bo angen.
- Cynnal a chadw rhestrai, glanhau a pharatoi cyfleusterau fel gall y Cyhoedd eu mwynhau yn ddiogel.
- Trin arian a chynorthwyo gyda rhedeg system archebu'r Canolfan Hamdden

## Prif Ddyletswyddau

- Cyflwyno rhaglenni o weithgareddau mewn dull ysgogiadol ac ysbrydoledig fel y cytunwyd gan y Rheolwr Ardal/Rheolwr ar Ddyletswydd.
- Cyflwyno rhaglen o weithgareddau nofio gan ddarparu cyfarwyddyd cymwys a diogel, sy'n defnyddio sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn sefydledig gan y Gymdeithas Nofio Amatur, ynghyd a dilyn llwybr nofio Pasbort Dwr Cymru.
- Sicrhau fod y drefn anwytho yn y gampfa o safon uchel ac yn ysgogi cwsmeriaid i ddychwelyd i'r Ganolfan yn rheolaidd.
- Hybu pecynnau ffitrwydd y Ganolfan i'r cwsmeriaid ynghyd â throsi sgyrsiau cychwynnol gyda chwsmeriaid i mewn i werthiant.
- Ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid er mwyn adnabod eu hamcanion a'u dyheadau ynglŷn â dilyn ffordd iach o fyw.
- Cefnogi'r cwsmeriaid trwy nifer o ddulliau i'w ysgogi a'u hysbrydoli i fyw yn iach.
- Ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid a'r darpar gwsmeriaid er mwyn adnabod pa dechnegau marchnata sy'n fwyaf effeithiol i ddefnyddio.
- Ymgymryd â dyletswyddau'r dderbynfa fel bo'r angen.
- Sicrhau safon uchel o ofal cwsmer gan hyrwyddo'r berthynas rhwng y Ganolfan a'r cwsmer ar bob achlysur.
- Sicrhau bod glendid y Ganolfan o safon uchel, yn ôl canllawiau'r Ganolfan.
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu goruchwylio'n ddiogel mewn ffordd gwrtais a boneddigaidd.
- Sicrhau ffyniant y Ganolfan drwy gynnig adborth a syniadau newydd ar sut i wella'r gwasanaeth.
- Ymgysylltu gyda'r cwsmeriaid hynny ar raglenni arbennig o fewn y Ganolfan, e.e. NERS, er mwyn sicrhau fod y llwybr dilyniant ar ôl gorffen y rhaglenni yn un esmwyth i'r cwsmer.
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y Ganolfan gan ddefnyddio'r iaith fel yr un cyntaf yn y gweithlu.
- Cyfrifoldeb am hunan ddatblygiad.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch y Cwmni.
- Gweithredu o fewn polisïau'r Cwmni yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.
- Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y Cwmni. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data

**Prif Ddyletswyddau**

- Ymrwymiad i leihau allyriadau carbon y Cwmni yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon ac i annog eraill i weithredu'n gadarnhaol tuag at leihau ôl-troed carbon y Cwmni.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyflog a lefel cyfrifoldeb y swydd.
- Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gamdrin

**Amgylchiadau Arbennig** . e.e. angen i weithio oriau anghymdeithasol, trefniadau gwaith arbennig, a.y.y.b.

- Cymryd rhan yn Rhaglen Hyfforddi'r Ganolfan pan fo angen a bod yn gyfrifol am ddiweddaru cymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.
- Dylai deilydd y swydd fod yn hyblyg ynghylch patrwm/shifftiau gwaith.
- Bydd angen gweithio shifftiau yn cynnwys gwaith gyda'r nos ac ar ben wythnosau.
- Telir lwfans ychwanegol pan yn darparu sesiynau ffitrwydd/nofio.
- Mae'r Gyfadran yn rhedeg rhaglen barhaus o hyfforddiant a datblygu medrau personol. Gweithredir Cynllun Gwerthuso er mwyn cyfrannu tuag at y ddarpariaeth hon. Disgwylir i ddeilydd y swydd gymryd rhan yn y rhaglen.

**Dim ond amlinelliad o ddyletswyddau'r swydd a ddangosir uchod, a hynny er mwyn rhoi syniad o'r lefel cyfrifoldeb sydd ynghlwm â hi. Nid yw'r swydd ddisgrifiad hon yn fanwl gynhwysfawr, ac fe all dyletswyddau'r swydd newid o bryd i'w gilydd heb newid ei natur sylfaenol a'r lefel cyfrifoldeb.**

I'w lenwi gan ddeilydd y swydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod Deilydd y Swydd | | Dyddiad | |

I'w lenwi gan swyddog y Cwmni

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod Swyddog y Cwmni | | Dyddiad | |